

GWRYCHOEDD - nodwedd annatod o dirwedd Cymru

HEDGEROWS - an integral feature of the Welsh landscape

» PAM MAE GWRYCHOEDD YN BWYSIG?

Mae gwrychoedd yn hanfodol ar gyfer Bioamrywiaeth Cymru o fewn y dirwedd Amaethyddol, gan ddarparu nifer enfawr o fanteision gan gynnwys:

» LLOCHES I DDA BYW

- Gall cysgod gynyddu cyfraddau goroesi ŵyn trwy leihau effaith oerfel y gwynt ac felly hypothermia.
- Yn ystod misoedd yr haf, mae gwrychoedd yn amddiffyn gwartheg llaeth rhag straen gwres a all leihau cynnyrch llaeth.

» BIODDIOGELWCH

- Mae ffiniau gwrychoedd cadarn yn fesur bioddiogelwch i atal da byw cyfagos rhag cyffwrdd.
- Mae gwrychoedd yn lloches aeafol bwysig i ysglyfaethwyr plâu cnydau i gefnogi rheoli plâu.

» CORIDORAU TEITHIO AR GYFER AMRYWIAETH EANG O FYWYD GWYLLT

- Mae gwrychoedd yn darparu bwyd, safleoedd bridio a lloches i lawer o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid, rhag da byw.
- Mae gwrychoedd a llystyfiant ar waelod gwrychoedd yn darparu llwybr hedfan ar gyfer peillwyr cnydau fel cacwn pan nad yw cnydau wedi blodeuo

» DAL A STORIO CARBON

- Unwaith y caiff ei sefydlu, gall gwrych newydd storio 600 - 800kg o garbon y flwyddyn fesul 1,000m, am hyd at 20 mlynedd.

» HIDLO DEUNYDD ARALL SY'N LLYGRU

- Gall gwrychoedd leihau faint o wrtaith, plaladdwyr a gwaddod sy'n llygru sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr trwy weithredu fel rhwystr ffisegol sy'n cynyddu ymdreiddiad llif dros y tir i'r ddaear, tra bod coed, llwyni a phlanhigion eraill yn ailgylchu maetholion.

» RHEOLEIDDIO ERYDIAD

- Mae gwrychoedd yn atal colli pridd o gaeau, trwy leihau erydiad gwynt neu drwy weithredu fel rhwystr i ddŵr ffo pridd mewn sefyllfaoedd o lif dŵr dros y tir.

» ANSAWDD DŴR

- Rheoleiddio dŵr – lleihau colledion dŵr drwy anweddu mewn cnydau drwy leihau cyflymder y gwynt.
- Gall gwrychoedd leihau llifogydd drwy gynyddu cyfradd ymdreiddiad dŵr drwy'r system wreiddiau ac arafu llif y dŵr.



» WHY ARE HEDGEROWS IMPORTANT?

Hedgerows are vital for Welsh Biodiversity within the Agricultural landscape, providing a huge number of benefits including:

» SHELTER FOR LIVESTOCK

- Shelter can increase lamb survival rates by reducing the effect of wind chill and thus hypothermia.
- In the summer months, hedgerows protect dairy cows from heat stress which can reduce milk yields.

» BIOSECURITY

- Robust hedgerow boundaries are a biosecurity measure to stop neighbouring livestock touching.
- Hedges are important winter refuge for predators of crop pests to support pest control.

» TRAVEL CORRIDORS FOR A WIDE RANGE OF WILDLIFE

- Hedges provide food, breeding sites and shelter for many plant and animal species, from livestock.
- Hedgerows and vegetation at the base of hedgerows provide flight lines for crop pollinators such as bumblebees when crops are not in flower.

» CAPTURE CARBON

- Once established, a new hedgerow may store 600 - 800kg of carbon per year per 1,000m, for up to 20 years.

» FILTER POLLUTANTS

- Hedges can reduce the number of polluting fertilisers, pesticides and sediment that reach watercourses by acting as a physical barrier increasing infiltration of overland flow into the ground, whilst trees, shrubs and other plants recycle nutrients.

» EROSION REGULATION

- Hedges prevent loss of soil from fields, through reducing wind erosion or through acting as a barrier to soil run-off in overland flow scenarios.

» WATER QUALITY

- Water regulation – reduce water loss through evaporation in crops by reducing wind speed.
- Hedges can reduce flooding by increasing the rate of water infiltration through the root system and slowing flows of water.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

EIN FFERMYDD
OUR FARMS